Cymru Masnach Deg
Fair Trade Wales

Edrych yn ôl ar 2021/22
A year in review 2021/22

Pwy ydym ni?

Cymru Masnach Deg yw'r sefydliad Masnach Deg cenedlaethol yng Nghymru, Cenedl Masnach Deg gyntaf y byd.

Nod:
Cefnogi, tyfu a hyrwyddo'r mudiad Masnach Deg yng Nghymru

Gweledigaeth:
Byd cyfartal, sy'n masnachu'n deg

Cenhadaeth:
Mae Cymru Masnach Deg yn gatalydd i dyfu'r mudiad Masnach Deg yng Nghymru

Gwerthoedd:
Cefnogol, Cydweithredol, Grymusol

Who are we?

Fair Trade Wales is the national organisation for Fair Trade in Wales, the world's first Fair Trade Nation.

Aim:
To support, grow and promote the Fair Trade movement in Wales

Vision:
An equal world, trading fairly

Mission:
Fair Trade Wales is a catalyst to grow the Fair Trade movement in Wales

Values:
Supportive, Collaborative, Empowering

CYMORTH
Creu a chefnogi actifyddion

Fe wnaethom roi cefnogaeth bwrpasol i 56 o gymunedau ar draws Cymru.

Yn cynnwys:

- **Fforwm Masnach Deg Cas-gwent:** Caffael cyhoeddus.
- **Cyngor Tref Abergele:** Adnewyddu statws Masnach Deg.
- **Masnach Deg Bangor:** Cyfathrebu digidol

SUPPORT
To create and support activists

We gave bespoke support to 56 communities across Wales.

Including:

- **Chepstow Fair Trade Forum:** Public procurement.
- **Abergele Town Council:** Fairtrade status renewal.
- **Fair Trade Bangor:** Digital communications

"Cawsom gefnogaeth yn creu ein gwefan a gwybodaeth am gynhyrchion Masnach Deg a chysylltiadau mewn gwledydd eraill, fel y gallwn hyrwyddo Masnach Deg ymhellach yn lleol."

Jenny Pye, Masnach Deg Bangor

"We had support setting up our website and information about Fair Trade products and contacts in other countries, so that we can promote Fair Trade further locally."

Jenny Pye, Fair Trade Bangor

TYFU

Creu partneriaethau a gwneud y mwyaf o gyfleoedd

COP 26

Fe wnaethom ddefnyddio COP26 i dynnu sylw at effaith yr argyfwng hinsawdd ar gynhyrchwyr drwy arddangos digwyddiadau ac adnoddau sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd, a thynnu sylw at ein cefnogaeth i lythyr agored Affrica Masnach Deg at wleidyddion, gan alw arnynt i fod yn deg gyda'u haddewidion hinsawdd.

Lansio Cyfiawnder Masnach

Fe wnaethom lansio Cyfiawnder Masnach Cymru ym mis Ionawr 2022.

Bydd ein grŵp yn cydweithio ar draws ystod o feysydd moesegol i sicrhau bod polisi masnach a chytundebau masnach newydd y DU yn cefnogi uchelgeisiau Cymru ar gyfer adferiad gwyrdd a chyfiawn, yn unol â nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

GROW

To create partnerships and maximise opportunities

COP 26

We used COP26 to highlight the impact of the climate crisis on producers by showcasing our climate focused events and resources, and highlighting our support for Fair Trade Africa's open letter to politicians, calling on them to be fair with their climate promises.

Trade Justice Wales Launch

We launched Trade Justice Wales in January 2022.

Our group will work together across a range of ethical areas to ensure that the UK's new trade policy and trade agreements support Welsh ambitions for a green and just recovery, in line with Well-being of Future Generations goals.

HYRWYDDO

Cynnal a gwella ymrwymiad y Llywodraeth i hyrwyddo'r Genedl Masnach Deg

Fe wnaethom siarad mewn digwyddiadau yn rhwydwaith Masnach Deg y Deyrnas Unedig, BAFTS, a Fforwm Masnach Deg yr Alban.

PROMOTE

To maintain and enhance the Government's commitment to furthering the Fair Trade Nation

We spoke at events in the UK Fair Trade network, BAFTS, and the Scottish Fair Trade Forum.

Fe wnaethom hwyluso rhwydweithio a chyflwyno yn y Gynhadledd Trefi Masnach Deg Rhyngwladol.

Fe wnaethom gyfrannu at Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach Llywodraeth Cymru.

Fe wnaethom gynnal digwyddiad ar gyfer y Diwrnod Coffi Rhyngwladol: Paned, Planed a Phrynwr mewn partneriaeth â Sefydliad Diwylliannol Mwslimaidd Cymru a WELCOME.

Facilitated networking and presented at the International Fair Trade Towns Conference.

Contributed to the Welsh Government Trade Policy Advisory Group.

Held an event for International Coffee Day: Coffee, Consumer and Climate in partnership with Welsh Muslim Cultural Foundation and WELCOME.

Pythefnos Masnach Deg 2022
Fair Trade Fortnight 2022

Mae'r Bythefnos Masnach Deg yn ddigwyddiad blynyddol sy'n dathlu popeth Masnach Deg. Cyfiawnder Hinsawdd oedd y thema.

Beth wnaethom ni

Digwyddiad blaenllaw
Buom yn gweithio mewn partneriaeth â SSAP Cymru i gynnal digwyddiad ar-lein; 'Ffasiwn teg? Sgwrs ar ffasiwn, hil a chyfiawnder hinsawdd' gyda phanelwyr arbenigol.

"Mae'r panel yn anhygoel!! Caru popeth rydych chi gyd wedi ei ddweud."

"Digwyddiad gwych - diolch! Wedi ei fwynhau o'n arw."

Cefnogaeth Gymunedol a Grwpiau Lleol
Buom yn gweithio mewn partneriaeth gyda chymunedau lleol i drefnu gweithgareddau a digwyddiadau, gan ddarparu cefnogaeth a chyllid.

Fair Trade Fortnight is an annual event that is a celebration of all things Fairtrade. The theme was Climate Justice.

What we did

Flagship event
We partnered with SSAP Cymru to host an online event; 'Fair Fashion? A conversation on fashion, race and climate justice' with expert panellists.

"The panel is amazing!! Love everything you have all said."

"Such a great event - thank you! Really enjoyed it and so insightful."

Community Support and Local Groups
We partnered with local communities to organise activities and events, providing support and finance.

Eighteen Rabbit, Y Gelli Gandryll
Stondinau

Sussed, Porthcawl
Darllen llyfrau a bore coffi.

Fair and Fabulous, Castell-newydd Emlyn
Digwyddiadau amrywiol mewn person

Kingdom Krafts & Beacon Books, Conwy
Bore coffi

Eighteen Rabbit, Hay-on-Wye
Stalls

Sussed, Porthcawl
Book reading and coffee morning

Fair and Fabulous, Newcastle Emlyn
Various in-person events

Kingdom Krafts & Beacon Books, Conwy
Coffee morning

Sylw gan y Wasg a Chefnogaeth Wleidyddol
Media Coverage and Political Support

24

Fe wnaeth Masnach Deg ymddangos mewn **24 darn yn y cyfryngau** ar gyfer y Bythefnos Masnach Deg, ym myd radio a theledu.

Fair Trade appeared in **24 media pieces** for Fairtrade Fortnight, in radio and

Cynhaliwyd digwyddiad gyda'r **Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol** a chynhyrchydd Masnach Deg.

We hosted an event with the **Minister for Social Justice** and a Fairtrade producer.

18

Llofnododd **18 o ASau** o bob plaid oedd yn cael eu cynrychioli, ddatganiad barn a gyflwynwyd gan Heledd Fychan AS am gefnogi'r Bythefnos Masnach Deg.

18 MSs from all represented parties signed up to a statement of opinion tabled by Heledd Fychan MS about supporting Fairtrade Fortnight.

Ein Dyfodol

Mae gennym ran annatod i'w chwarae yng Nghymru fel Cenedl Masnach Deg. Ochr yn ochr â chefnogi'r mudiad ar lawr gwlad, a darparu cyfleoedd i gynhyrchwyr Masnach Deg a siarad ar lefel ryngwladol, rydym wedi mynd y tu hwnt i feini prawf Cenedl Masnach Deg trwy lawer o'n gwaith.

Our Future

We have an integral part to play in Wales being a Fair Trade Nation. Alongside supporting the grassroots movement, providing Fair Trade producer opportunities and speaking up internationally, we have gone above and beyond Fair Trade Nation criteria through much of our work.